
PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN MORGANNWG

**Partneriaeth** Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | West Glamorgan Regional **Partnership**

# **CYLCH**LYTHYR

MEHEFIN 2024



YN Y RHIFYN HWN:


SYLW AR ANABLEDD DYSGU

DEWCH I GWRDD Â NEIL

SIARAD AM GLUDIANT

TAITH HANNAH I DOWNING STREET

GWEITHDY'R HWB CYFALAF

CHWIFIO'R FANER I PRIDE!


## SYLW AR ANABLEDD DYSGU

### STRATEGAETH RANBARTHOL YN HYRWYDDO CYNHWYSIANT A CHYFLEOEDD CYFARTAL I BOBL AG ANABLEDD DYSGU

Croeso i rifyn gwanwyn/haf Cylchlythyr Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg!

Yn y rhifyn hwn, mae'n bleser gennym cyflwyno y Strategaeth Anabledd Dysgu Ranbarthol, a lansiwyd yn gynharach eleni yn dilyn cyfres o weithgareddau ymgysylltu a chydgynhyrchu.




### THEMÂU BLAENORIAETH

Mae'r strategaeth newydd yn ymestyn dros gyfnod o bum mlynedd ac fe'i lluniwyd gan bobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes.

Nodwyd saith thema flaenoriaeth allweddol yn ystod y cyfnod datblygu, i gyd yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i bobl a'r camau sydd eu hangen i ddileu'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

Y rhain yw:

- Cludiant
- Cael y gofal a'r gefnogaeth gywir
- Fy Nghymuned
- Dysgu Gydol Oes
- Swyddi a Gwirfoddoli
- Fy Nghartref
- Gwneud fy mhenderfyniadau fy hun a chael dweud fy marn.

# STRATEGAETH ANABLEDD DYSGU – PARHAD...

Mae 'Bwrdd Rhaglen Lles ac Anabledd Dysgu' Gorllewin Morgannwg yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth, a'r cam cyntaf yw trefnu gweithdy ar y thema allweddol 'Cludiant'.

Bydd hyn yn arwain at ddarparwyr cludiant sy'n gweithredu yn ein rhanbarth yn dod ynghyd â phobl ag Anabledd Dysgu i drafod materion hygyrchedd a rhannu syniadau ar sut y gellir gwella gwasanaethau.

Byddwn yn rhoi'r diweddaraf i chi am y rhaglen waith hon a sut mae'r Strategaeth yn gwneud gwahaniaeth mewn rhifyn o'r Cylchlythyr yn y dyfodol.

***"Fel Cyd-gadeirydd Bwrdd y Rhaglen Lles ac Anabledd Dysgu, rwy'n falch iawn o weld lansiad diweddar y Strategaeth Anabledd Dysgu Ranbarthol.***


***Mae'r Strategaeth a'i chynllun gweithredu'n cefnogi ymrwymiad Bwrdd y Rhaglen i egwyddorion cyd-gynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth â, gwrando ar, parchu a chefnogi pobl ag Anabledd Dysgu yng Ngorllewin Morgannwg"***

*Amy Hawkins, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi Cyngor Abertawe*

Gellir dod o hyd i gopïau Cymraeg, Saesneg a Hawdd eu Darllen o'r Strategaeth Anabledd Dysgu Ranbarthol ar dudalen 'Lles ac Anabledd Dysgu' ein gwefan (**cliciwch yma i weld**) neu sganiwch y côd QR.

# DEWCH I GWRDD Â NEIL - CYNRYCHIOLYDD GWIRFODDOL

I nodi lansiad y Strategaeth Anabledd Dysgu Ranbarthol eisteddom gyda **Neil Williams**, un o'n Cynrychiolwyr Gwirfoddolwyr ar y 'Bwrdd Lles ac Anabledd Dysgu' i siarad am ei gysylltiad â'r Bartneriaeth...




## Helo, Neil 👋 - dywedwch ychydig wrthym amdanoch chi'ch hun...

Helo! Neil ydw i ac rwy'n byw yn ardal Resolfen yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rwy'n gweithio'n rhan amser i Your Voice Advocacy, sef sefydliad sy'n cefnogi pobl ag Anabledd Dysgu. Rwyf hefyd yn gwirfoddoli gyda Your Scene, sef elusen sy'n cynnal gweithgareddau cymdeithasol i bobl ag Anabledd Dysgu sy'n byw yn ein hardal.

Rwyf newydd gael fy mhenodi fel ymddiriedolwr a chadeirydd ar gyfer Your Scene. Rhwng hynny a fy rôl fel Cynrychiolydd Gwirfoddol Gorllewin Morgannwg, rwy'n bendant yn cadw'n brysur!

## Wyt ti'n mwynhau popeth rwyt ti'n ei wneud?

Yn bendant! Rwy'n mwynhau mynychu cyfarfodydd Gorllewin Morgannwg, ac rwyf hefyd newydd ymuno â Rhwydwaith Anabledd yn Abertawe. Mae popeth wedi bod yn dda iawn hyd yn hyn. Rwy'n cael cymorth i fynychu a chymryd rhan yng nghyfarfodydd Bwrdd Gorllewin Morgannwg, sydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn gan eu bod yn cynnwys llawer o wybodaeth!

Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi fy amser rhydd yn fawr. Rwy'n hoffi bod gyda fy ngwraig Ann ac rydym yn mwynhau gofalu am ein hanifeiliaid - mae gennym ddau gi a 15 cwningen!

# DEWCH I GWRDD Â NEIL - PARHAD...

### Beth wyt ti'n ei fwynhau am wirfoddoli gyda Gorllewin Morgannwg?

Gweld chi i gyd! Rwyf hefyd yn ei hoffi pan mae rhywbeth y mae angen ei herio. Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd o'r blaen lle bu problemau fel pobl yn siarad yn rhy gyflym neu'n rhy dawel. Mae'n bwysig iawn i gyfarfodydd fod yn hygyrch – rwy'n hoffi siarad lan i wneud yn siŵr bod pawb yn cael eu cynnwys ac yn gallu rhoi adborth.

### A oes unrhyw beth nad ydych yn hoffi am y rôl?

Dydw i ddim yn ffan mawr o gyfarfodydd Teams. Mae'n well gen i gyfarfod wyneb yn wyneb gan eich bod yn cael y cyfle i sgwrsio â phobl cyn ac ar ôl y cyfarfod. Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol cael enwau pobl ar y sgrin - weithiau dwi'n anghofio enwau!

### Mae'r Bwrdd Llesiant ac Anabledd Dysgu yn canolbwyntio ar y thema 'cludiant'. Pam ydych chi'n meddwl ei fod yn bwysig?'

Gall cludiant cyhoeddus fod yn boen i'w ddefnyddio. Rwy'n dal y bws yn aml - mae'n annibynadwy ac yn ddryslyd. Maent yn cyflwyno systemau a ffyrdd newydd o dalu sy'n ei gwneud yn anodd i bobl ddeall.

Rwy'n hapus bod y Bwrdd yn edrych ar ffyrdd i wella pethau!

Diolch yn fawr i Neil am gymryd yr amser i siarad â ni!
Os ydych wedi cael eich ysbrydoli i gymryd rhan yn y Bartneriaeth fel Cynrychiolydd Gwirfoddol, gallwch weld ein manylion cyswllt ar ddiwedd y Cylchlythyr hwn.

# SIARAD AM GLUDIANT

Fel y dywedasom eisoes, mae '**cludiant**' yn flaenoriaeth allweddol i Fwrdd Llesiant ac Anabledd Dysgu Gorllewin Morgannwg.

Ddydd Mawrth 9 Gorffennaf (10am - 1pm), mae pobl ag Anabledd Dysgu yn cael eu gwahodd i weithdy a fydd yn caniatáu iddynt ddweud eu dweud ar yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth ddefnyddio cludiant, a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Bydd cynrychiolwyr o gwmnïau cludiant a chynllluniau gymunedol yn bresennol i siarad am y gwasanaethau y maent yn eu darparu ac i ateb cwestiynau.

### OES GENNYCH CHI DDIDDORDEB?

Cynhelir y gweithdy yng Nghanolfan Anifeiliaid Llys Nini, Penllergaer, Abertawe, SA4 9WB. Gallwch gadw lle trwy glicio **yma** neu sganio'r cod QR ar y daflen ar y dde.
Os na allwch ei wneud, gallwch barhau i gyfrannu trwy gwblhau'r arolwg hwn -

**www.surveymonkey.com/r/VCM8M2X**

Y dyddiad cau fydd 10am ar ddydd Mawrth 2 Gorffennaf 2024.



# TAITH HANNAH I DOWNING STREET!

Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol o waith gwych yr Hwbs Dementia, sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda Dementia ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r fenter werthfawr hon wedi ehangu diolch i fuddsoddiad y 'Gronfa Integreiddio Ranbarthol' (RIF), a weinyddir gan Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Na fydd llwyddiant Hwbs Dementia yn bosibl heb waith caled sylfaenydd y prosiect, Hannah Davies.

Roeddem yn falch iawn o glywed bod ymdrechion Hannah wedi'u cydnabod ar raddfa genedlaethol wrth iddi gael ei gwahodd i dderbyniad yn Downing Street a drefnwyd gan Genhadaeth Dementia y Fonesig Barbara Windsor ar 20fed Mawrth eleni.

Dyma beth oedd ganddi i'w ddweud am ei phrofiad arbennig iawn:



***"Roedd yn anrhydedd i mi dderbyn y gwahoddiad hwn - ac am ddiwrnod gwych!***

***Wrth gerdded ar hyd Whitehall, gwelais Hilda Hayo, Prif Swyddog Gweithredol Dementia UK a Phrif Nyrs Admiral a buom yn sgwrsio'n hapus wrth i ni aros i gael ein gadael drwy'r system ddiogelwch tebyg i'r hyn a geir mewn maes awyr. Unwaith yr aethom drwy'r gatiau gan gydio yn ein gwahoddiadau papur a'n lluniau adnabod, dywedwyd wrthym i gerdded i lawr i'r drws mawr du a churo arni. Roedd cath breswyl Rhif 10, Larry, yn groesawgar yn y ffenestr ac ar ôl i'r hunlun gorfodol gael ei dynnu ar y stepen drws, aethom i mewn. Ni chaniateir ffonau, lluniau nac offer electronig yno a chabinet pren pwrpasol gyda 200 o slotiau ffôn oedd y darn cyntaf o ddodrefn y sylwais arno.***

***Ar ôl tro byr ar hyd y coridor es i i fyny'r grisiau melyn lle'r oedd lluniau du a gwyn o'r holl Brif Weinidogion blaenorol, yn union fel y mae yn y ffilm Love Actually. Llwyddais i wrthsefyll yr ysfa i ddechrau dawnsio, er fy mod yn cyfaddef bod y gân "Jump" gan y Chwiorydd Pointer yn chwarae'n uchel y tu mewn i fy mhen!***





***Llenwyd y ddwy awr nesaf gan areithiau a chanapés, mygiau o de a sgyrsiau gyda rhai o'r bobl fwyaf diddorol y gallwn i erioed obeithio'u cyfarfod. Yr unig berson arall o Gymru a welais ymhlith y 150 o westeion oedd un o Ganolfan Dementia Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru.***

***Casglwyd y mygiau'n rhy fuan o lawer ac roedd pobl yn casglu eu heiddo wrth y drws ffrynt ac aethom allan ac yn ôl i heulwen y gwanwyn. Sylweddolais fy mod wedi bod yn 'arnofio' am ddwy awr ac roeddwn yn ddiolchgar bod Larry wedi dod i gael mwythau i'm helpu i ddihuno o'm breuddwyd ar ôl prynhawn mor ysbrydoledig".***

Llongyfarchiadau, Hannah - rydych chi wedi cyflawni cymaint yn barod a ninnau methu aros i weld dyfodol disglair i'r Hwbs Dementia!

# GWEITHDY'R HWB CYFALAF




Ar 27 o Fawrth daeth amrywiaeth o randdeiliaid at ei gilydd yn Stadiwm Swansea.com ar gyfer Gweithdy Cynllun Cyfalaf Strategol Gorllewin Morgannwg.

Nod y sesiwn oedd ystyried darpariaethau **Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Llywodraeth Cymru**, a sefydlwyd i gefnogi ymagwedd gydlynol at gynllunio cydleoli ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned ledled Cymru.

Cyfnewidiodd y rhai a oedd yn bresennol syniadau a mewnwelediadau, gan bwysleisio eu hymrwymiad cyffredin i fynd i'r afael ag anghenion cymunedol a sut y byddai datblygiadau o'r fath yn cael effaith gadarnhaol.

Ar y diwrnod cafwyd cyflwyniadau gan Ifor Glyn (Prif Weithredwr Canolfan Gofalwyr Abertawe) a Rebecca Hooper (Arweinydd Cynllunio Cyfalaf, BPRh Caerdydd a'r Fro), gan sbarduno trafodaethau difyr ar ddatblygu cymunedol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Tîm Cyfalaf yng Ngorllewin Morgannwg yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth o'r digwyddiad i gryfhau eu cynllun cyfalaf strategol a chreu ymagwedd arfaethedig ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

# CHWIFIO'R FANER I PRIDE!

Roeddem wrth ein bodd yn cymryd rhan yn **Pride Abertawe** am y tro cyntaf eleni, ac roedd yn brofiad anhygoel!

Denodd ein stondin wybodaeth lawer o ddiddordeb, ac roeddem yn falch iawn o gael y cyfle i ymgysylltu â chymaint o bobol brwdfrydig a chefnogol.

Roedd hefyd yn wych gweld cynrychiolaeth o'n cyd-sefydliadau sy'n canolbwyntio ar iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y awyrgylch yn berffaith a chawsom amser gwych gyda chi gyd!







Rydym eisoes yn cynllunio sut y gallwn wneud pethau hyd yn oed yn well ar gyfer 2025, gan gynnwys archwilio'r posibilrwydd o fynychu **Pride Castell-nedd Port Talbot**. Rydym mewn trafodaethau gyda'r trefnwyr a wnaeth waith gwych gyda'r digwyddiad eleni.

Diolch eto i bawb fu'n rhan o wneud tymor Balchder eleni yn gymaint o lwyddiant. Edrychwn ymlaen at barhau â'n taith i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein rhanbarth.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch west.glamorgan@abertawe.gov.uk neu ffoniwch 01792 633 805. Mae'r cylchlythyr hwn ar gael mewn fformatau gwahanol - cysylltwch â ni gyda manylion eich gofynion.